# Creu Eich Abwydfa Eich Hun – Gweithgaredd Awyr Agored

**Mae angen:**

Mwydod

Jar mawr, glân neu gynhwysydd clir

Hambwrdd plastig

Pridd

Tywod

Graean neu gerrig bach

Dŵr

Hen ddail, planhigion neu flodau

Croen ffrwythau a llysiau

Papur du

Tâp gludiog

Man oer a thywyll (fel cwpwrdd)



## Y Gweithgaredd

1. Dechreuwch gan olchi a sychu'r jar neu'r cynhwysydd. Rhowch y cynhwysydd ar yr hambwrdd plastig.
2. Arllwyswch raean neu gerrig bach i mewn i'r cynhwysydd – bydd hyn yn helpu i ddraenio unrhyw ddŵr sydd dros ben.
3. Ychwanegwch haenen o dywod a phridd am yn ail. Dylai pob haenen fod yn 2cm o ddyfnder. Mae angen tua 5cm o ofod ar dop y cynhwysydd.
4. Ychwanegwch mwy o dywod a phridd nes bod y cynhwysydd bron wedi ei lenwi.
5. Ychwanegwch ychydig o ddŵr fel bod yr haen uchaf o bridd wedi gwlychu tipyn.
6. Chwiliwch am fwydod i roi yn yr abwydfa! Rhowch y mwydod yn ofalus ar yr haenen uchaf o bridd.
7. Nesaf, rhowch y dail, y planhigion a'r blodau a chroen llysiau a ffrwythau drostynt.
8. Gwnewch dyllau yn y caead a'i osod ar y cynhwysydd






ewch i twinkl.cymru

9. Gludiwch y papur du o gwmpas y cynhwysydd a'i osod mewn man oer a thywyll, fel cwpwrdd.

10. Gadewch yr abwydfa am ychydig o ddiwrnodau ac yna ewch i weld beth mae'r mwydod yn wneud! Cofiwch ddal y cynhwysydd yn bwyllog a'i osod yn ofalus ar y bwrdd. Beth sy'n digwydd i'r haenau gwahanol? Beth sydd wedi digwydd i'r dail a'r bwyd sydd ar ben y pridd? A fedrwch chi weld patrymau yn y pridd sydd wedi cael eu creu gan y mwydod?



11. Gofalwch am eich mwydod gan sicrhau eich bod yn cadw cynnwys yr abwydfa yn llaith – nid yn rhy wlyb ac nid yn rhy sych. Nid yw mwydod yn hoffi awyrgylch rhy boeth na rhy oer, felly man oer sydd orau. Gallwch ychwanegu bwyd newydd cyn gynted a bydd y bwyd sydd yno'n barod wedi cael ei fwyta. Mae planhigion, dail a blodau neu fwyd gwastraff yn arbennig o dda, a gallwch ychwanegu papur newydd neu gardfwrdd hefyd.




ewch i twinkl.cymru